OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2009 Rhif 1353 (Cy.129)

ADDYSG, CYMRU

Rheoliadau Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru (Swyddogaethau) (Diwygio) 2009

Gwnaed - - - - 2 Mehefin 2009
Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru - - 4 Mehefin 2009
Yn dod i rym yn unol â rheoliad 1(2)

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol gan adrannau 3 (3D), 4(2), 14(3) a 42(6) a (7) o Ddeddf Addysgu ac Addysg Uwch 1998(**1**) ac sydd bellach wedi eu breinio ynddynt hwy(**2**), ac ar ôl ymgynghori â Chyngor Addysgu Cyffredinol Cymru yn unol ag adran 42(9) o Ddeddf Addysgu ac Addysg Uwch 1998, yn gwneud y Rheoliadau canlynol:

Enwi a chychwyn

1.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru (Swyddogaethau) (Diwygio) 2009.

(2) Daw'r Rheoliadau hyn i rym ar 1 Gorffennaf 2009 ac eithrio rheoliad 2(6)(b) a ddaw i rym ar 12 Hydref 2009 a rheoliad 2(5)(b) a (6)(ch) a ddaw i rym ar 26 Gorffennaf 2010.

Diwygio Rheoliadau Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru (Swyddogaethau) 2000

2.—(1) Caiff Rheoliadau Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru (Swyddogaethau) 2000(**3**) eu diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn rheoliad 2 mewnosoder yn y man priodol y diffiniad canlynol —

"ystyr "An Chomhairle Mhúinteoireachta neu'r Cyngor Addysgu" yw'r Cyngor Addysgu a sefydlwyd o dan adran 5 o Ddeddf Cyngor Addysgu 2001(**4**) (corff y mae ganddo swyddogaethau sy'n cyfateb â rhai'r Cyngor mewn perthynas â Gweriniaeth Iwerddon);".

(**1**) 1998 p.30. Mae adrannau 2 i 7 yn gymwys mewn perthynas â Chyngor Addysgu Cyffredinol Cymru yn rhinwedd adran 9. Mewnosodwyd adran 3(3D) gan baragraff 3(5) o Atodlen 12 i Ddeddf Addysg 2002 (p.32). I ganfod ystyr "prescribed" a "regulations" *gweler* adran 43(1).

(**2**) Trosglwyddwyd swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol i Gynulliad Cenedlaethol Cymru yn rhinwedd Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672) ac adran 211 o Ddeddf Addysg 2002 (p.32) ac yna i Weinidogion Cymru yn rhinwedd paragraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p.32).

(**3**) O.S. 2000/1979 (Cy.140) fel y'i diwygiwyd gan O.S. 2001/2496 (Cy.200), O.S. 2004/1741 (Cy.180), O.S. 2005/69 (Cy.7) ac O.S. 2006/1343 (Cy.133).

(**4**) Rhif 8 dyddiedig 2001.

(3) Hepgorer rheoliad 4A.

(4) Ar ôl rheoliad 18, mewnosoder y rheoliad canlynol —

"**Rhoi gwybodaeth i An Chomhairle Mhúinteoireachta neu'r Cyngor Addysgu**

18A.—(1) Pan ofynnir iddo wneud hynny, rhaid i'r Cyngor roi'r wybodaeth a geir yn Atodlen 2 mewn perthynas ag —

(a) athro cofrestredig neu athrawes gofrestredig; neu

(b) person anghofrestredig y mae'n cadw cofnodion amdano yn unol â gorchymyn o dan adran 7(1) a (4) o Ddeddf 1998,

i An Chomhairle Mhúinteoireachta neu'r Cyngor Addysgu(**5**).

(2) Pan roddir gwybodaeth o dan baragraff (1), rhaid gosod amod yn ei gwneud yn ofynnol i An Chomhairle Mhúinteoireachta neu'r Cyngor Addysgu beidio â datgelu'r wybodaeth honno i unrhyw berson ac eithrio'r athro neu'r athrawes neu berson arall y mae'r wybodaeth yn ymwneud ag ef neu â hi.".

(5) Yn Atodlen 1 —

(a) ar ôl paragraff 22B mewnosoder y canlynol —

"**22C.** Telerau unrhyw gyfyngiad sydd mewn grym am y tro mewn perthynas â'r athro neu'r athrawes o ganlyniad i unrhyw gamau disgyblu a gymerwyd gan Gyngor Addysgu Cyffredinol Gogledd Iwerddon.

22D. Telerau unrhyw gyfyngiad sydd mewn grym am y tro mewn perthynas â'r athro neu'r athrawes o ganlyniad i unrhyw gamau disgyblu a gymerwyd gan An Chomhairle Mhúinteoireachta neu'r Cyngor Addysgu.";

(b) ar ôl paragraff 24 ychwaneger y canlynol —

"**25.** P'un a yw'r athro neu'r athrawes yn ddarostyngedig i gael ei fonitro neu ei monitro yn unol ag adran 24 o Ddeddf Diogelu Grwpiau Hyglwyf 2006(**6**), ac os nad yw, p'un a yw'r Ysgrifennydd Gwladol wedi rhoi'r gorau i'w fonitro neu i'w monitro yn unol ag adran 26 o'r Ddeddf honno.".

(6) Yn Atodlen 2 —

(a) ym mharagraff 11A ar ôl "yr Alban" mewnosoder ", An Chomhairle Mhúinteoireachta neu'r Cyngor Addysgu,";

(b) ar ôl paragraff 12 mewnosoder y canlynol —

"**12A.** Os yw'r person wedi ei wahardd o weithgaredd a reoleiddir ac sy'n ymwneud â phlant (o fewn ystyr adran 3(2) o Ddeddf Diogelu Grwpiau Hyglwyf 2006), datganiad i'r perwyl hwnnw.";

(c) ar ôl paragraff 13B mewnosoder y canlynol —

"**13C.** Telerau unrhyw gyfyngiad neu fanylion unrhyw waharddiad sydd mewn grym am y tro mewn perthynas â'r athro neu'r athrawes o ganlyniad i unrhyw gamau disgyblu a gymerwyd gan Gyngor Addysgu Cyffredinol Gogledd Iwerddon.

13D. Telerau unrhyw gyfyngiad neu fanylion unrhyw waharddiad sydd mewn grym am y tro mewn perthynas â'r athro neu'r athrawes o ganlyniad i unrhyw gamau disgyblu a gymerwyd gan An Chomhairle Mhúinteoireachta neu'r Cyngor Addysgu.";

(**5**) Mae An Chomhairle Mhúinteoireachta neu'r Cyngor Addysgu wedi ei sefydlu o dan adran 5 o Ddeddf Cyngor Addysgu 2001, ac mae ganddo swyddogaethau sy'n cyfateb i rai'r Cyngor mewn perthynas â Gweriniaeth Iwerddon.

(**6**) 2006 p.47.